**EITEM AR YR AGENDA: 10**

**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**
**PANEL GWEITHREDOL**

**13eg Gorffennaf 2009**

**Rhagofalon Cyllideb ar gyfer 2010/11**

**Adroddiad gan Dawn Docx, Dirprwy Brif Swyddog Tân**

## Diben yr Adroddiad

1 Mae'r papur hwn yn gyfle cynnar i sefydlu'r pwysau cyllideb arwyddocaol ar gyfer 2010/11 a thu hwnt. Nid yw'n bosib meintoli'r holl bwysau hyn ar hyn o bryd, ond lle mae'n bosib, mae'r rhain wedi cael eu cynnwys i gynhyrchu cyllideb ddynodol ar gyfer y flwyddyn nesaf.

## Cefndir

2 Er mwyn cynorthwyo proses osod cyllideb Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru, mae'r papur yn rhestru'r pwysau ariannol sy'n wynebu'r Gwasanaethau'r flwyddyn nesaf.

3 Y man cychwyn yw'r gyllideb refeniw ar gyfer 2009/10 sy'n £31,311,563 miliwn. Fe ddylai Aelodau fod yn ymwybodol mai cynnydd o 3.21% oedd hyn a'i fod yn cwrdd â'r dyfarniadau cyflog blynyddol ac yn cynnwys arian ar gyfer y pwysau hynny nad oedd modd eu hosgoi, er enghraifft, yr angen i osod sylfeini'r gyllideb, gwerthuso swyddi, a chyllido diogelwch tân trwy drosglwyddo cyllid o swyddi peiriannau cyrraedd yn uchel (ALP).

4 Gwyddom ei bod yn debygol mai'r dyfarniad cyflog i Ddiffoddwyr Tân fydd 1.25% ar gyfer 2009/10. Os ydym yn cymryd y bydd yn parhau ar y lefel honno yn 2010/11, ac y bydd cyflogau staff yr ochr gefnogol ar yr un lefel, gan gymryd i ystyriaeth fod lefel chwyddiant ar lefel dybiedig o 2.3%, byddai angen inni gael cyllideb o £31,789,867 er mwyn aros yn ein hunfan.

5 Hefyd, byddai’r Gwasanaeth yn wynebu’r pwysau canlynol:

- **Cost refeniw Firelink, sef y system radio newydd a fydd yn cael ei chyflwyno yn Nhachwedd 2009. Hyd yn oed yn y cyfnod hwyr hwn, nid ydym yn gwybod faint fydd hon yn ei gostio. Rhwng £500,000 a £1 miliwn oedd y trafodaethau cychwynnol.**

- **Costau refeniw’r isadeiledd TGCh, sydd tua £369,000.**

- **Cost benthyca cyfalaf.**

6 Felly, bydd angen cyllideb o £32,790,000, sef cynnydd o 4.7%. Rhaid ystyried hyn yng ngoleuni setliad y Grant Cynnal Refeniw, sydd yn debygol o fod lawer iawn yn is.

**Argymhelliad**

7 Bod yr Aelodau’n nodi’r pwysau uchod, ac yn nodi pa wybodaeth bellach yr hoffent ei derbyn mewn cyfarfodydd sydd i ddod.